# PWYLLGOR CYNLLUNIO DYDD LLUN, 14 MAWRTH 2016

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd Michael Sol Owen – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd**

**Y Cynghorwyr:** Endaf Cooke, Elwyn Edwards, Simon Glyn, Gwen Griffith, Eric M. Jones, June Marshall, W. Tudor Owen, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, ac Eurig Wyn.

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorwyr E. Selwyn Griffiths ac Aeron Jones (Aelodau lleol).

**Hefyd yn bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio), Cara Owen (Rheolwr Rheolaeth Datblygu), Dafydd Gareth (Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Dyfrig Jones, John Wyn Williams (Eilydd), Gweno Glyn, Peter Read, a Dilwyn Lloyd (Aelodau Lleol).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(a) Datganodd yr aelod canlynol fuddiant personol mewn perthynas a'r eitem a nodir isod:

- Y Cynghorydd Endaf Cooke (a oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.1 ar y rhaglen (cais cynllunio rhif C14/1197/22/LL) oherwydd perthynas i'r gwrthwynebydd.

Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais a nodir.

(b) Datganodd yr aelodau canlynol eu bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitemau a nodir:

- Y Cynghorydd E. Selwyn Griffiths, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.4 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C15/1132/44/LL);
- Y Cynghorydd Eric Merfyn Jones, (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C15/1248/17/LL)
- Y Cynghorydd Aeron Jones, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.6 ar y rhaglen, (cais rhif C16/0063/17/MW)

Ymneilltuodd yr Aelodau i ochr arall y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau dan sylw ac ni fu iddynt bleidleisio ar y materion hynny.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2016, fel rhai cywir.

## 3. CEISIADAU CYNLLUNIO

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu.

Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

**PENDERFYNWYD**

### 1. Cais rhif C14/1197/22/LL – Bryn Melyn, Nasareth

Cyfnewid cyfleusterau lloches anifeiliaid presennol gyda chyfleusterau newydd i gynnwys derbynfa, cybiau cŵn, cybiau cathod, mannau parcio, ceubwll a chyfleusterau cysylltiedig.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi y gohirwyd penderfynu ar y cais yng nghyfarfod mis Chwefror o'r Pwyllgor Cynllunio ac y cynhaliwyd ymweliad a'r safle gan rai o'r Aelodau cyn y prif gyfarfod cynllunio. Nodwyd bod yr egwyddor o sefydlu lloches anifeiliaid ar ddaliad "Freshfields" (Bryn Melyn) wedi ei sefydlu yn ôl yn 1997.

Credir na fyddai graddfa'r bwriad yn amharu'n arwyddocaol ar yr amgylchedd o ystyried ad-drawiad a gosodiad yr adeiladwaith presennol ar y tirlun ynghyd a dyluniad ac edrychiadau/deunyddiau allanol yr adeiladwaith newydd fydd yn lleihau'r effaith gweledol o fewn y tirlun lleol ac yn gyfle i wella ansawdd edrychiad y safle.

Nodwyd mai prif wrthwynebiad deiliaid anheddau cyfagos i'r cais yw'r aflonyddwch sŵn sy'n deillio'n bresennol o'r safle a'r sŵn a all ddeillio o'r bwriad drwy gynyddu'r niferoedd o gŵn a fwriedir eu lletya ar y safle ei hun. Ystyrir bod y mesurau lliniaru ac ynysu sŵn a gynigir yn lleihau ac yn negyddu'r aflonyddwch sŵn a fyddai'n deillio o'r adeilad cybiau newydd fel bod lefelau sŵn yn cydymffurfio a lefelau sŵn statudol gan obeithio wedyn na fyddai ad-drawiad sylweddol ac arwyddocaol ar fwynderau preswyl a chyffredinol trigolion cyfagos.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda Chynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG) am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

Roedd y safle yn un prysur ac y byddai'r newidiadau yn ffurfioli'r cyfleusterau gan gynnwys mannau pwrpasol i barcio. Nodwyd nad oedd gan yr Uned Trafnidiaeth unrhyw wrthwynebiad ac o ystyried cyd-destun ac yn ddarostyngedig i gynnwys amodau cynllunio perthnasol, credir bod y cais yn dderbyniol ar sail graddfa, lleoliad, dyluniad, deunyddiau, diogelwch ffyrdd, parcio, mwynderau gweledol a mwynderau preswyl ac yn cydymffurfio a pholisiau lleol a chenedlaethol perthnasol.

(b) Cynigiwyd ac eilwyd i ganiatau'r cais.

(c) Mewn ymateb i bryder amlygwyd gan Aelod ynglyn a chynnydd yn y nifer o gŵn a fwriedir lletya ar y safle, esboniodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu nad oes unrhyw achos statudol o niwsans wedi ei brofi a bod y cais yn welliant o'r strwythur a bod modd ynysu'r sŵn drwy'r ddarpariaeth pwrpasol ar eu cyfer. Tynnwyd sylw hefyd bod amodau ynghlwm i'r cais ar gyfer ei reoli.

O safbwynt ymholiad pellach i roi cyfnod o brawf i'r safle, eglurodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu y byddai'n afresymol i wneud hyn o ystyried bod 5 ci ar y safle yn barod ac roedd y cais yn gyfle i wella'r cyfleusterau.

Ychwanegodd i ymholiad arall ynglyn a chynnydd mewn traffig, na fyddai fwy o fynd a dod i'r safle nag sy'n bodoli'n barod.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais yn ddarostyngedi i'r amodau canlynol:**

1. **3 mlynedd i ddechrau'r gwaith.**
2. **Yn unol â'r cynlluniau diwygiedig.**
3. **Deunyddiau allanol.**
4. **Tirweddu.**
5. **Cynllun insiwleiddio adeilad y cybiau i'w gyflwyno a'i ganiatáu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLL) cyn dechrau unrhyw waith i'w adeiladu yn unol â'r manylion a gymeradwywyd ac ni chaniateir cadw cwn mewn unrhyw adeilad arall nac ar unrhyw ran arall o'r safle wedi hynny.**
6. **Asesiad sŵn i'w gyflwyno i'r ACLL a'i ganiatáu cyn gosod offer mecanyddol awyrad ar unrhyw adeilad.**
7. **Cyfyngu niferoedd o gwn sydd angen llety ar y safle ar unrhyw adeg i 8 yn unig.**
8. **Cyfyngu'r amser mae'r cyfleuster yn agored i'r cyhoedd rhwng 10.30 y bore hyd at 13.00 y pnawn.**
9. **Ni leolir y system trin carthion o fewn 15medr o unrhyw ffrwd, ffoes neu gwrs dwr ag o leiaf 50m o unrhyw ffynhonnell cyflenwad dwr preifat.**
10. **Rhaid cyflwyno canlyniadau arbrofion mandylledd cyn dechrau unrhyw ddatblygiad ar y safle.**
11. **Datblygiad i'w gwblhau mewn gweddau gyda manylion i'w cytuno gyda'r ACLL (i gynnwys manylion adeiladau i'w dymchwel, trefn y gwaith ar y safle a cyn y blaen). Bydd angen cwblhau bob gwedd i lwyr foddhad yr ACLL.**
12. **Gwarchod llwybr cyhoeddus rhif 73 yng nghymuned Llanllyfni yn ystod ac ar ôl cwblhau'r datblygiad.**

## 2. Cais rhif C15/0215/40/LL – Tir ger Tan yr Eglwys, Abererch

Adeiladu 9 tŷ annedd newydd a fydd yn cynnwys 3 annedd fforddiadwy ynghyd a ffurfio ffordd fynediad fewnol a llwybr cerdded mewnol.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi y gohirwyd penderfynu ar y cais ar gyfer ymweld a'r safle a derbyn cynlluniau diwygiedig. Ymwelwyd a'r safle gan y Pwyllgor Cynllunio a chyflwynir cais diwygiedig i godi 8 yn hytrach na 9 o dai ar safle o fewn ffin datblygu Abererch ac a ddynodwyd yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd ar gyfer tai newydd ar gyfer marchnad gyffredin. Yn sgil lleihau'r nifer o dai o 9 i 8, cynigir 2 o'r 8 ty yn rhai fforddiadwy.

Derbyniwyd Datganiad Ieithyddol a Chymunedol fore'r cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio hwn ac roedd swyddogion yn y broses o ymgynghori ar ei gynnwys gyda'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Cyfeiriwyd at asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol fel a gyflwynwyd yn yr adroddiad. Ni dderbyniwyd gwrthwynebiadau gan yr Uned Trafnidiaeth, Uned Bioamrywiaeth, nac ychwaith Cyfoeth Naturiol Cymru. Derbyniwyd un llythyr yn gwrthwynebu'r bwriad diwygiedig ond roedd y swyddogion cynllunio o'r farn nad oedd y gwrthwynebiadau yn cyfiawnhau gwrthod y cais.

Ar sail derbyn y Datganiad Ieithyddol a Chymunedol y bore hwnnw argymhelliad y swyddogion ydoedd i ddirprwyo'r hawl i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn sylwadau ffafriol gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i'r datganiad Ieithyddol a Chymunedol ynghyd ag i'r ymgeisydd arwyddo Cytundeb 106 i sicrhau 2 dy fforddiadwy ar gyfer angen lleol ac i amodau cynllunio perthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

(b)Cynigiwyd ac eilwyd i ganiatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddogion cynllunio.

(c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Pryder ynglyn â'r ardrawiad ieithyddol ac nad oedd y Pwyllgor Cynllunio wedi cael cyfle i'w weld ac felly teimlwyd ei fod yn gynamserol i'r Pwyllgor benderfynu ar y cais hyd nes eu bod yn derbyn y manylion a gwybodaeth gyflawn yn y Datganiad Ieithyddol a Chymunedol
- Bod gwendid sylfaenol yn y polisïau sy'n nodi nad oes raid i ymgeiswyr gyflwyno asesiad iaith. Dylid newid y polisïau i gynnwys yr angen am asesiad ieithyddol
- Pryder pe byddir yn gohirio cymryd penderfyniad ar y cais, y byddai'r ymgeisydd yn cyflwyno apêl yn erbyn y Cyngor am ddiffyg penderfyniad o fewn cyfnod o amser dynodedig
- Siomedig bod cyfran y tai fforddiadwy yn lleihau ac ar gyfer 2 dy deulawr gromen pâr dwy ystafell wely

(ch) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, eglurwyd:

- y byddai modd i'r Pwyllgor Cynllunio ohirio penderfynu ar y cais neu ymddiried yn y swyddogion i ymgynghori ar gynnwys y datganiaid ieithyddol a pe derbynir cadarnhad gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd fod ei gynnwys yn dderbyniol i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i gwblhau Cytundeb 106 ac i'r amodau cynllunio perthnasol.
- y byddai gan yr ymgeisydd berffaith hawl i gyflwyno apêl ac fe sicrhawyd y byddai'r swyddogion yn asesu'r datganiad ieithyddol yn fanwl

(d) Cynigwyd ac eilwyd gwelliant i ohirio cymryd penderfyniad ar y cais hyd nes y byddir yn cael adborth ar gynnwys y Datganiad Ieithyddol.

Pleidleiswyd ar y gwelliant i ohirio'r cais ac fe syrthiodd y cynnig gwreiddiol.

**Penderfynwyd: Gohirio cymryd penderfyniad ar y cais hyd nes derbynnir cadarnhad fod cynnwys y Datganiad Ieithyddol a Chymunedol yn dderbyniol.**

**3. Cais rhif C15/0793/32/LL – Stad Nanhoron, Botwnnog**

Adeiladu fferm solar a gwaith cysylltiol.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi y gohiriwyd y cais yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Chwefror er mwyn ymweld a'r safle. Ymwelodd rhai o aelodau'r Pwyllgor Cynllunio y safle ar 7 Mawrth 2016 ac hefyd bu iddynt fynd i weld y safle o mynydd Rhiw. Eglurwyd mai cais ar gyfer gosod paneli solar ar dir amaethyddol ynghyd â gwaith atodol gan gynnwys trac mynediad newydd oedd gerbron.

Saif y safle ar lethr esmwyth oddeutu 700 medr i'r de ddwyrain o bentref Botwnnog ac yng nghefn gwlad agored ymhlith tirwedd donnog gyda choedwig aeddfed tuag at ffin ddwyreiniol a gwrychoedd o amgylch mwyafrif caeau'r safle.

Cyfeirwyd at ymatebion yr ymgynghoriadau cyhoeddus ynghyd â sylwadau hwyr ychwanegol a dderbyniwyd a gyflwynwyd i'r Aelodau.

Nodwyd bod egwyddor y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â pholisi strategol ar gyfer darparu ynni o ffynhonellau adnewyddadwy.

Un o'r prif bwyntiau i'w ystyried o safbwynt y cais hwn ydoedd mwynderau gweledol ac roedd yr ymweliad safle o gymorth i ddeall y tirwedd yn well yn ogystal a'r safle. Nodwyd nad oedd y safle ei hun o fewn yr AHNE ond yn weladwy o rhai mannau. Byddai'r golygfeydd yn rhai o bell megis o diroedd uwch yn ardal Mynydd Rhiw a Garn Fadryn gyda'r golygfeydd o gefn y paneli solar neu o'u hochr. Derbyniwyd sylwadau'r Uned AHNE ar y bwriad arfaethedig ac roeddynt o'r farn na fyddai'r bwriad yn cael effaith arwyddocaol ar yr AHNE ei hun. Derbyniwyd datganiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi eu bod yn fodlon y gall y paneli solar gael eu cymhwyso heb effaith sylweddol ar olygfeydd yr AHNE. O ganlyniad, ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol o agwedd mwynderau gwledol. O safbwynt dylunio, roedd yn amlwg o'r safle bod cloddiau aeddfed eithaf uchel o gwmpas y caeau eu hunain a thu hwnt yn ogystal a band o goed aeddfed a oedd yn sgrin effeithiol o un cyfeiriad. Ystyrir y byddai mod rhoi amod i gytuno manylion mwy o waith tirlunio er mwyn atgyfnerthu gwrychoedd presennol sydd mewn rhannau yn wan a thenau. Yn sgil hyn ystyrir y byddai'r bwriad yn dderbyniol.

Derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu oddi wrth berchennog eiddo cyfagos yn ymwneud ag effaith ar y golygfeydd ynghyd ag effaith fflachio a llacharedd. Nodwyd bod yr eiddo wedi ei leoli oddeutu 270 medr i'r dwyrain o'r safle gyda phrif edrychiad yr eiddo yn edrych tuag at y de orllewin. O ystyried pellter yr eiddo o'r safle ac mai ochr y paneli fyddai i'w gweld ohono, ni chredir y byddai'r effaith yn ormesol i breswylwyr yr eiddo ac na fyddai'r effaith ar y tirlun yn cyfiawnhau gwrthod y cais. Tra'n cydnabod bod potensial isel o fflachio a llacharedd, ystyrir bod y bwriad i blannu gwrych newydd ac i gael cynllun tirlunio ni ystyrir y byddai'n achosi niwed arwyddocaol o safbwynt colli mwynderau i'r eiddo dan sylw.

Nodwyd bod Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd angen cyflawni rhagor o waith cyn bod yn fodlon y byddai'r effaith ar y safle yn dderbyniol ond nodwyd bod hyn yn eithaf cyffredin ar gyfer y math yma o ddatblygiad. Ymddengys ei bod yn bosibl i oresgyn y pryderon a bod yr ymgeisydd yn fodlon cydymffurfio yn dilyn derbyn cefnogaeth y Pwyllgor Cynllunio i'r cais.

Gwelwyd o'r adroddiad bod y materion bioamrywiaeth, llifogydd a'r cyfnod gweithredol yn dderbyniol. Pwysleiswyd bod paragraff 5.30 yn yr adroddiad yn cyfeirio at fudd cymunedol ac er gwybodaeth yn unig gan nad yw yn faterol i gynllunio.

Ystyrir y byddai'n rhesymol i ddirprwyo'r hawl i ganiatau'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn gwybodaeth archeolegol ddigonol sy'n bodloni Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd ynghyd a'r amodau a nodir yn yr adroddiad.

(b) Cynigwyd i ganiatau'r cais yn unol ag argymhellion oedd gerbron oherwydd ei bod yn amlwg bod cefnogaeth gadarn i'r datblygiad yn yr ardal.

(c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd pryder gan Aelod am:

- golli 22.6 acer o dir amaethyddol
- cost y trydan
- uchder y paneli solar
- budd cymunedol
- aflonyddwch yn ystod y gwaith ynghanol tymor twristiaeth
- diystyru yr hyn a ddywedir gan Wasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd
- bod gan y Pwyllgor ddyletswyddau statudol i warchod golygfeydd o fewn yr AHNE

(ch) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu:

- Bod pori yn gallu digwydd o dan y paneli solar ac nad oedd y tir yn cael ei gydnabod fel tir pori gorau ac nad oedd pryder am ei golli ar gyfer y datblygiad
- Nad oedd cost y trydan nac ychwaith y budd cymunedol yn faterol i gynllunio wrth asesu'r cais. Ategodd yr Uwch Gyfreithiwr na all y Pwyllgor Cynllunio ystyried budd cymunedol yn ystyriaeth faterol cynllunio ar y cais gerbron nac unrhyw gais cynllunio arall
- Bod materion priffyrdd yn dderbyniol a'r Uned Trafnidiaeth yn fodlon hefo'r cais a'r cyfnod adeiladu yn ddarostyngedig i amodau priodol i sicrhau bod pob dim yn dderbyniol
- O safbwynt gwarchod y tirwedd a'r AHNE, cyflwynwyd asesiad llawn fel rhan o'r adroddiad a chynhaliwyd ymgynghoriad hefo'r holl ymgynghorwyr statudol yn ymwneud hefo'r dynodiadau perthnasol ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad ac felly bod ystyriaeth lawn wedi ei roi o ran mwynderau gweledol
- Tra'n derbyn bod y safle yn weledol ni ysytir ei fod yn effaith annerbyniol nac yn niweidiol. Daethpwyd i'r casgliad o'r asesiad a thrwy ymgynhgori bod y golygfeydd mwyaf amlwg yn mynd i fod i'r ochr a chefn y paneli. Derbyniwyd y sylw bod y gwrychoedd yn dameidiog iawn mewn mannau ond nodwyd bod y gwrychoedd yn hynafol a bod modd atgyfnerthu ambell i fan gwan.

(d) Ychwanegodd Uwch Reolwr y Gwasanaeth Cynllunio bod risg i'r Cyngor i wrthod y cais heb unrhyw dystiolaeth i wneud hynny o gofio ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan y cyrff statudol. Gan nodi bod y safle yn un hanesyddol, ni dderbyniwyd ychwaith wrthwynebiad gan CADW. Fel opsiwn, gellir gohirio penderfynu ar y cais gan roi cyfarwyddyd i'r swyddogion gael y wybodaeth gan Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd a / neu ymddiried yn y swyddogion i ystyried y wybodaeth a phe byddai ganddynt bryderon i gyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor.

(dd) Cynigwyd ac eilwyd ar welliant i ohirio penderfynu ar y cais hyd nes derbynnir sylwadau gan Wasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd.

(e) Nodwyd y sylwadau canlynol o blaid y gwelliant:

- Tra yn ymddiried yn y swyddogion mai mater i'r pwyllgor ydoedd cymryd cyfrifoldeb i ystyried y wybodaeth ychwanegol a ofynnir amdano
- Bod nifer o safleoedd hynafol yng nghyffiniau'r ardal
- Oni fyddai wedi bod yn fuddiol i gyflwyno'r wybodaeth yn gyflawn i'r Pwyllgor cyn cyflwyno cais er ystyriaeth

(f) Cyn pleidleisio ar y gwelliant i ohirio, nododd y Cadeirydd bod yn ofynnol i'r Pwyllgor ymbwyllo gyda gohiriadau, gan bod sawl cais wedi ei ohirio yn ddiweddar ac o'r herwydd bod yr Adran yn methu symud ymlaen i'w prosesu.

(ff) Pleidleiswyd ar y gwelliant i ohirio ond fe syrthiodd y gwelliant. Pleidleiswyd ar y cynnig gwreiddiol i ganiatau'r cais yn unol ag argymhellion y swyddogion cynllunio ac fe gariwyd y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD: Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn gwybodaeth archeolegol ddigonol sy'n bodloni Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd ac i amodau:-**

1. **Cychwyn o fewn 5 mlynedd.**
2. **Unol gyda chynlluniau.**

3. **Rhaid lleoli'r paneli yn y lleoliadau a ddangosir ar y cynlluniau neu fel y cytunwyd mewn ysgrifen gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol**
4. **Cytuno deunyddiau allanol yr holl adeiladau, ffens a pholion camerâu**
5. **Cytuno deunyddiau/lliwiau'r fframiau a'r gorchudd di-llacharedd.**
6. **Cyflwyno manylion tirlunio ychwanegol am gymeradwyaeth i gynnwys atgyfnerthu'r gwrychoedd presennol ar y ffiniau.**
7. **Ymgymryd â'r gwaith yn unol gyda'r cynllun tirlunio yn y tymor plannu cyntaf ar ôl cychwyn.**
8. **Ymgorffori'r manylion tirlunio ychwanegol i mewn i ddogfen Cynllun Rheoli Tirwedd a Bioamrywiaeth ddiwygiedig.**
9. **Adeiladu'r fynedfa safle dros dro yn unol gyda'r cynllun a gyflwynwyd.**
10. **Adeiladu'r fynedfa barhaol yn gwbl unol a'r cynllun a gyflwynwyd a'i chwblhau o fewn mis o gwblhau'r datblygiad fferm solar.**
11. **Datblygu'r safle yn unol gyda'r Cynllun Gwerthusiad Mynedfa a Rheolaeth Traffig a'r Datganiad Dull Adeiladu.**
12. **Angen cwblhau'r datblygiad yn unol â Thabl 1 Atodlen Rheolaeth Gweithgareddau'r Cynllun Rheoli Tirwedd a Bioamrywiaeth.**
13. **Cyflwyno a chytuno Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (Construction Environmental Management Plan- CEMP) cyn i'r gwaith gychwyn. Dylai gynnwys mesurau atal llygredd ar ffurf cynllun rheoli achos o lygredd.**
14. **Cyflwyno a chytuno manylion cymysgedd hadau ar gyfer creu porfa i'r awdurdod am gymeradwyaeth cyn i'r gwaith ail-hadu gychwyn.**
15. **Cyflwyno a chytuno manylion lleoliad blychod ystlumod ag adar i'r awdurdod.**
16. **Cyflwyno canlyniad asesiadau blynyddol ynghyd a chynllun rheolaeth ddiwygiedig ar ddiwedd cyfnod 5 mlynedd gyntaf y Cynllun fel y manylir yn Amcan 6 o'r Cynllun Rheolaeth.**
17. **Cwblhau'r gwaith yn unol gyda rhan 4 Crynodeb ac Argymhellion o'r Arolwg Cyfyngiadau Coed.**
18. **Angen cyflwyno a chytuno cynllun rheoli dŵr wyneb ac yna gweithredu'r datblygiad yn unol gyda'r cynllun a gytunwyd.**
19. **Dim adeiladau, strwythurau na chodi lefel tir o fewn 4 medr i ben glan unrhyw gwrs dwr.**
20. **Ac eithrio'r goleuadau adeg gwaith adeiladu ni chaniateir unrhyw oleuo o'r safle oni bai y cytunir ymlaen llaw gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.**
21. **Dylid gosod unrhyw geblau trydan o'r datblygiad i'r cysylltiad trydanol o dan ddaear yn unol â'r manylion a ddangosir ar gynllun Botwnnog Solar Farm_P23_P0C_RevB.**
22. **Caniatâd am 30 mlynedd.**
23. **O fewn 12 mis i'r paneli solar a ganiateir drwy hyn beidio cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu trydan, rhaid eu tynnu'n barhaol oddi ar y tir ac adfer y safle yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol.**
24. **Y datblygiad i gael ei wneud yn unol gyda'r mesurau lliniaru tirlun a gynhwysir yn rhan 7 o'r ATEW (Wardell Armstrong Awst 2015).**
25. **25. unrhyw amodau archeolegol perthnasol**

**Nodiadau**

1. **Angen hawl o dan Adran 171 / 184 Deddf Priffyrdd 1980 am unrhyw waith o fewn ffordd / palmant / ymyl glas.**
2. **Holl gostau am arwyddion ffyrdd, marciau ffyrdd a gorchymyn traffig i'w talu gan yr ymgeisydd.**
3. **Angen hawl o dan Adran 40 o Ddeddf Priffyrdd 1980 i osod cyfarpar o fewn neu o dan briffordd.**
4. **Angen cymryd pob gofal i atal dŵr wyneb o gwrtil y safle rhag arllwys i'r briffordd.**
5. **Angen copi o lythyr 6 Rhagfyr 2015 Dwr Cymru a'r angen i fod yn ymwybodol o'r canllawiau a geir ynddo.**
6. **Diogelu cyrsiau dwr.**

**Copi o lythyr Cyfoeth Naturiol Cymru 16 Rhagfyr 2015 ar angen i fod yn ymwybodol o'r canllawiau a gynhwysir ynddo o ran osgoi llygredd a rheoli gwastraff**

**4. Cais Rhif C15/1132/44/LL – Lidl Store, Ffordd Penamser, Porthmadog**

Cais llawn i ddymchwel siop bresennol ac ail godi siop newydd yn ei lle gyda gwaith cysylltiol gan gynnwys gwyro llwybr presenol

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi y byddai'r bwriad yn gwneud defnydd o safle y siop a'r mannau parcio presennol yn ogystal a safle cyfochrog.

Lleolir y safle o fewn ffin datblygu tref Porthmadog ac wedi dymchwel yr adeilad presennol, y bwriad fyddai ail wampio'r safle trwy godi'r adeilad newydd mewn lleoliad newydd yn gyfochrog a'r ffordd stad bresennol gan greu mannau parcio o fewn lleoliad y siop bresennol.

Cyfeirwyd at yr ymgynghoriadau cyhoeddus, y ffurflen sylwadau hwyr a'r polisiau cynllunio perthnasol o fewn yr adroddiad.

Nodwyd fod egwyddor y bwriad yn dderbyniol a chyfeirwyd at hanes cynllunio'r safle. O safbwynt mwynderau gweledol, tynnwyd sylw bod arwynebedd llawr yr uned yn cynyddu ac yn fwy na'r siop bresennol. Fodd bynnag, ni chredir y byddai hyn yn afresymol o ran ei faint o fewn cyd-destun maint adeiladau presennol eraill o fewn cyffiniau y safle eang hwn.

Ni chredir y byddai'r bwriad yn amharu i raddau annerbyniol sylweddol yn fwy na'r hyn sydd eisoes yn bodoli ar fwynderau cyffredinol a phreswyl yr ardal leol. Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r bwriad gan Uned Trafnidiaeth y Cyngor. Tynnwyd sylw at bryderon amlygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru o safbwynt materion llifogydd. Yn dilyn trafodaethau deallir bod modd dod i ganlyniad derbyniol a chytundeb ar fanylion Asesiad Canlyniadau Llifogydd a chredir y byddai'r datblygiad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio a gofynion y polisiau perthnasol.

Ar sail derbyn cadarnhad CNC fod y bwriad yn dderbyniol argymhelliad y swyddogion cynllunio ydoedd i ganiatau'r cais yn ddarotnygedig i amodau cynllunio perthnasol.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:

- Bod Lidl yn bwriadu buddsoddi £1.5b dros yr ychydig flynyddoedd nesaf wrth gyflwyno siopau newydd i safon uwch
- Bod llond llaw o siopau o ansawdd uchel yn y DU gyda Phorthmadog yn un o rhai cyntaf yng Ngogledd Cymru
- Bydd y siop newydd yn elwa o fuddsoddiad sylweddol yn ffabrig yr adeilad yn fewnol ac yn allanol
- Bydd y dyluniad allanol a mewnol o fanyleb uwch o lawer
- Bydd y siop newydd yn darparu amgylchedd siopau o ansawdd uwch i gwsmeriaid a gwell amgylchedd gwaith i staff
- Bydd aelodau presennol o'r staff yn cael eu cadw gyda 10-20 o swyddi newydd yn cael eu creu a'u llenwi gan bobl leol
- Bydd gwelliant i'r cysylltiad o'r llwybr troed i'r dref

(c) Nododd yr Aelod Lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn) gefnogaeth i'r bwriad arfaethedig ac yn ymfalchio bod Lidl wedi dewis Porthmadog ar gyfer

uwchraddio'r siop ac yn sicr fe fydd o fudd i'r economi leol. Ni ragwelwyd unrhyw bryder gyda'r llwybr cyhoeddus ond tynnwyd sylw i sicrhau rheolaeth ar amseroedd llwytho a dadlwytho nwyddau. Gwnaed cais hefyd i'r arwydd ar ochr y briffordd fod yn ddi-oleuedig yn ogystal a sicrhau bod yr arwydd fydd ar y siop ei hun yn cael ei ddiffodd pan fo'r siop ar gau.

(ch) Mewn ymateb i sylwadau wnaed gan Aelodau unigol, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu fel a ganlyn:

- Gellir gwneud cais i gwmni Lidl i ddarparu arwyddion dwyieithog ond ni ellir gosod amod ar y cais. Bydd cais am arwyddion yn gais ar wahân ac bydd ymgynghoriad priodol pryd derbynir cais o'r fath.
- Yn yr un modd, gellir anfon llythyr i'r cwmni yn datgan fod y Pwyllgor yn awyddus iddynt gyflogi yn lleol.
- O safbwynt cyfyngu ar oriau, gwneir hyn drwy amodau safonol i osgoi effaith ar fwynderau drwy sŵn o'r trolis llwytho, loriau yn bacio, a.y.b.

(d) Cynigwyd, eilwyd a phleidleiswyd i ganiatau'r cais.

**PENDERFYNWYD: Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn cadarnhad gan CNC fod modd rheoli mesurau atal llifogydd i raddau derbyniol.**

**Caniatau – amodau**
1. **Amser**
2. **Cydymffurfio gyda cynlluniau**
3. **Tirlunio**
4. **Cynllun goleuo i'w gytuno**
5. **Cyfyngu defnydd/math o nwyddau/amser/danfon nwyddau**
6. **Priffyrdd**
7. **Dwr Cymru**
8. **Cyfyngu lloriau ychwanegol**
9. **Cyfyngu i un uned manwerthu yn unig a dim rhannu yn y dyfodol**
10. **Deunyddiau i'w cytuno**
11. **Cyfnod/dull dymchwel**
12. **Oriau gwaith yn ystod cyfnod adeiladu**
13. **Amodau perthnasol yn ymwneud gyda heoli/atal llifogi**
14. **Amodau llwybr cyhoeddus**
15. **Amodau Cyfoeth Naturiol Cymru**

**5. Cais rhif C15/1248/17/LL - 35, Y Grugan, Groeslon, Caernarfon**

Cais i godi modurdy.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod rhai o'r Aelodau wedi ymweld a'r safle cyn y prif gyfarfod hwn. Roedd y bwriad ar gyfer codi modurdy sengl newydd ar ran o dir tu allan i gwrtil penodol yr eiddo, sydd ar ben draw ffordd stad. Nodwyd bod sylfaen concrid yn bodoli ar y safle yn barod sy'n darparu lle parcio, gyda'r sylfaen yn ymestyn tu allan i safle'r cais ac yn darparu oddeutu 2 lecyn parcio ychwanegol i dai eraill.

Derbyniwyd nifer o wrthwynebiadau i'r bwriad yn ymwneud gyda lleoliad y modurdy o safbwynt perchnogaeth tir, anghydfod perchnogaeth tir, mynediad ar gyfer cynnal a chadw rhan o eiddo a defnydd o lwybr sy'n rhedeg heibio ochr y modurdy gan y cyhoedd.

Nodwyd bod y bwriad yn golygu ymestyn y sylfaen concrid presennol i'r ochr (tuag at eiddo rhif 23) ac i'r cefn gyda'r cynlluniau a gyflwynwyd yn dangos bod y tir o fewn perchnogaeth yr ymgeisydd. Eglurwyd bod materion perchnogaeth yn fater sifil, yn hytrach na mater cynllunio, felly nid yw anghydfod perchnogaeth tir yn rheswm i wrthod caniatâd cynllunio.

Nodwyd byddai ymestyn y sylfaen yn amharu ar lwybr sy'n rhedeg rhwng y modurdy bwriedig ac eiddo rhif 23 Y Grugan. Ymddangosir fod y llwybr o fewn perchnogaeth yr ymgeisydd, roedd asiant y cais wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan yr Uned Llwybrau nad yw'r llwybr yma yn llwybr cyhoeddus, nac o fewn perchnogaeth Cyngor Gwynedd, nac ychwaith wedi ei fabwysiadu na'i gynnal gan y Cyngor. Nodwyd bod y modurdy bwriedig i'w godi yn llwyr ar dir sydd wedi ei leoli o fewn perchnogaeth yr ymgeisydd, ac ni ystyrir ei fod yn or-ddatblygiad o'r safle, nac yn cael effaith andwyol ar breifatrwydd na mwynderau unrhyw unigolyn cyfagos.

Cadarnhawyd na ystyrir bod y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn gorbwyso'r ystyriaethau polisi na'r materion cynllunio perthnasol. Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda pholisiau y CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):-

- Bod y cais yn fater sensitif iawn i drigolion y pentref
- Nodir yn yr adroddiad bod modurdy wedi bod ar y safle yn y gorffennol ond bryd hynny roedd yn rhan o eiddo 35 o dan gytundeb rhwng cyfeillion
- Bod y modurdy mewn cyflwr gwael ac roedd yn rhaid ei thynnu i lawr
- Wrth edrych ar y cynlluniau bod to'r modurdy yn rhedeg yn ôl a phryderwyd y byddai dwr yn rhedeg i lawr tuag at adwy eiddo 37 ac yn creu llifogydd
- Yn ogystal fe fyddai'r modurdy yn ymestyn dros y palmant a chwestiynwyd sut fyddir yn gwneud gwaith i'r modurdy
- Bod y darn concrid ar gyfer parcio yn unig ac ddim ar gyfer adeiladu
- Pe byddir yn adeiladu modurdy ar y concrid y byddai'n anodd i'r perchennog ddod allan o'r car
- Tra'n derbyn bod hanes cynllunio ar y llecyn yn ystod y 60au, nid oedd hanes cynllunio diweddar
- Bod mannau parcio ar gyfer rhifau 35, 36 a 37, os caniateir y cais y byddai modurdy mwy na'r sylfaen goncrid presennol yn amharu ar y llecyn canol ac amharu ar lwybr ac eiddo rhif 23;
- Apeliwyd yn gryf i'r Pwyllgor Cynllunio ei wrthod ar sail y byddir yn amddifadu pobl o lefydd parcio

(c) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, pwysleisiodd yr Uwch Gyfreithiwr tra'n derbyn bod teimladau cryf yn lleol ynglyn â'r cais, rhaid bod yn wyliadwrus oherwydd mai materion sifil oedd nifer o'r materion a godwyd. Tra'n cydymdeimlo gyda safbwynt yr Aelod Lleol, tynnwyd sylw bod yr adroddiad gerbron yn glir o safbwynt agweddau cynllunio.

(ch) Cynigwyd ac eilwyd i ganiatau'r cais.

(d) Mewn ymateb i ymholiadau Aelodau unigol, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- O safbwynt perchnogaeth y tir, bod hawl gan unrhyw unigolyn i gyflwyno cais cynllunio ac nad oedd pwy bynnag sydd yn parcio ar y safle ar hyn o bryd yn berthnasol i ystyriaethau cynllunio
- Bod opsiwn i gael mynediad troed o'r ochr arall ac ymddengys fod gweddill y llwybr "U" bedol mewn perchnogaeth unigolion eraill

- Yn unol a rheoliadau cynllunio, nid oedd angen cael drws tân yng nghefn a/neu ochr y modurdy
- Bod yr Adran Gynllunio wedi ymgynghori gyda Dŵr Cymru ac nad oedd ganddynt wrthwynebiad.
- Nodwyd mai'r ymgeisydd sy'n berchen ar y tir yng nghefn y safle ac y byddai'r dŵr yn debygol o sefyll ar ei dir ei hun
- O safbwynt pryder pellach gyda dŵr yn cronni, nodwyd na fyddai mwy o ddŵr yn llifo/cronni o ganlyniad i adeiladu'r modurdy na'r hyn sy'n debygol o fod yn barod ar lecyn concrid ac mai mater i'r Uned Rheolaeth Adeiladu fyddai trefnu suddfan dŵr
- Rhaid cadw mewn cof mai modurdy sengl yw testun y cais, a rhaid bod yn ofalus i beidio ymyrryd a phethau eraill
- Sicrhawyd nad oedd yr ardal o fewn parth llifogydd
- Ymddengys mai'r Cyngor sydd yn cynnal rhannau o'r palmant

**PENDERFYNWYD: Caniatau yn unol a'r amodau canlynol:**

**1. 5 mlynedd**
**2. Sicrhau cwblhau'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd**
**3. Defnydd atodol i'r eiddo a adnabyddir fel 35 Y Grugan , Groeslon/dim defnydd busnes**

**Nodyn Dwr Cymru**
**Nodyn wal gydrannol**

**6. Cais Rhif C16/0063/17/MW – Chwarel Moel Tryfan, Rhosgadfan**

Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 6 ar ganiatâd rhif C14/0471/17/LL i alluogi cynnydd mewn allbwn.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff ar gefndir y cais gan nodi ar hanes diweddar y safle. Ail-gydiwyd yn y gwaith yn 2007 ar ôl i'r Cyngor gyflwyno rhestr diwygiedig o amodau dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i ail-gychwyn ennill a gweithio mwynau ynghyd a gweithrediadau cysylltiedig yn y chwarel uchod.

Derbyniwyd sawl cais yn ddiweddar i wella is-adeiladd y safle, megis caniatâd yn 2013 i wella y ffordd gludo a'r fynedfa i'r briffordd. Yn dilyn hyn, rhoddwyd caniatâd yn 2014 i amrywio yr un amod, gyda'r caniatâd blaenorol yn 2007 a ganiatawyd i gynyddu allbwn y chwarel o 10,000 tunnell y flwyddyn i 20,000 tunnell yn ddarostyngedig i gario 4 llwyth y dydd. Pwysleiswyd bod yr egwyddor o 4 llwyth y dydd eisoes wedi ei sefydlu.

Cyfeiriwyd at y materion yn ymwneud â traffig a mynediad o fewn yr adroddiad ac fe nodwyd ni dderbyniwyd gwrthwynebiad gan yr uned drafnidiaeth cyn belled a bo nifer y symudiadau o ac i'r safle yn cynyddu. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor Cynllunio at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd gan Adran Gwarchod y Cyhoedd yn datgan nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad gydag amodau cyfredol mewn perthynas a sŵn o'r datblygiad yn ddigonol.

Derbyniwyd dau lythyr o wrthwynebiad ynglyn â phryderon yn ymwneud â thraffig, sŵn digryniad, llwch, a.y.b. Nodwyd bod Adran Gwarchod y Cyhoedd wedi gofyn i edrych eto ar faterion llwch yn dod o'r chwarel i adlewyrchu anghenion rheolau modern.

Bwriedir cadw rhan o'r amod sy'n gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno nifer y symudiadau i'r Adran Gynllunio o fewn amser penodol ac yn sgil hyn argymhellir i ganiatáu.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:

- Bod caniatâd presennol sy'n rheoli datblygiad y safle yn cyfyngu allbwn y safle i 20,000 tunnelll y flwyddyn yn amodol i 4 llwyth y diwrnod
- Mai cais ydoedd i ddiddymu rhan o amod 6 i gyfyngu'r allbwn y chwarel ac yn hytrach yn ddibynnol ar nifer o lwythi all adael y safle bob dydd
- Bod yr ymgeisydd yn awyddus i gynyddu'r allbwn flynyddol ond yn ymwybodol o'r pryderon yn lleol ynglyn â chynnydd yn y traffig trwm
- Bod modd codi'r lefelau tra yn aros tu fewn i'r caniatâd tra yn manteisio ar uchafswm maint a nifer y llwythi dyddiol a thrwy neud hyn ni fyddai effaith andwyol ar fwynderau trigolion yn codi oherwydd ni fyddai lefelau trafnidiaeth trwm yn cynyddu uwchben yr hyn a ganiateir yn bresennol
- Er bod dau lythyr o wrthwynebiad wedi ei dderbyn yn barod nid oes run gwrthwynebiad gan yr ymgynghorwyr statudol
- Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned, nac ychwaith Adran Priffydd y Cyngor
- Ni fydd cynnydd yn nifer dyddiol y llwythi
- Bod yr adroddiad yn cadarnhau bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisau perthnasol y Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd
- Bydd y safle yn cyfrannu at gyflenwad cynaliadwy o aggregau ac yn cyfrannu at yr economi lleol

(c) Nododd yr Aelod Lleol cyfagos (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn) ond fe ddatganodd bod rhan o'r chwarel yn ei ward, ac ar y cyfan nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r bwriad ond mynegodd y pryderon canlynol:

- Cyfeiriwyd at luniau oedd ganddo yn dangos lori yn teithio i lawr o'r chwarel drwy Rhosgadfan a phryderai am ddiogelwch y cyhoedd ac yn arbennig plant ar y lonydd cul mewn pentrefi bach
- Nad oedd ffigwr yn yr adroddiad ar gyfer yr allbwn
- Bod yr Adran Cynllunio yn gwrthwynebu mwy na 4 llwyth ac roedd o'r farn bod hyn yn agored i drafodaethau ac y byddai yn fwy na pharod i gyd-drafod gyda'r ymgeisydd a'r swyddog perthnasol yn yr Adran Gynllunio oherwydd iddo dderbyn cwynion yn datgan bod mwy na 4 llwyth yn digwydd eisoes
- Derbyniodd gwyn gan unigolyn ynglyn a difrod i wal a hefyd bod 7 lori y diwrnod yn cario llwythi o'r chwarel
- Pryder y bydd y loriau trwm yn gwneud difrod i'r lonydd
- Gofynnir am reolau cadarn sef cyfyngu'r oriau i loriau beidio cario llwythi cyn 9.15 y.b. ac ar ôl 3.00 y.p. o ddydd Llun i Gwener; uchafswm o loriau yn 20 tunnell; trafodaeth rhwng yr aelodau lleol a'r cwmni i drafod unrhyw broblemau; bod y cwmni yn cyfrannu at gronfa leol canolog; sefydlu gorfodaeth yn rhan amodol o'r cais i'r loriau deithio i fyny drwy Rhostryfan / Rhosgadfan ac i lawr drwy Carmel / Groeslon
- Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor Cynllunio ymweld a'r safle

(ch) Mewn ymateb i'r uchod, pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio mai cais i ddiwygio amod oedd ger bron a bod yr egwyddor o waith y chwarel eisoes wedi ei sefydlu. Rhaid cadw mewn cof nad yw'r cais yn gofyn am oriau gweithredu'r chwarel ac y byddai hyn yn afresymol. O ran symudiadau tu allan i'r chwarel, ni ellir rheoli pa rwydwaith y byddai'r loriau yn teithio.

Cytunwyd, o safbwynt cyfathrebu, y byddai'n fuddiol i sefydlu Grŵp Cyswllt fel y gellir gwyntyllu materion a oedd yn destun pryderon gan yr Aelodau lleol. Nodwyd bod hwn yn

fodd y gellir ei gynnig ond ni ellir ei amodi o fewn y caniatâd cynllunio. Nodwyd ymhellach bod y cais yn rhoi hyblygrwydd i allu cwrdd a'r galw yn y farchnad

(d) Cynigwyd ac eilwyd yr argymhelliad i ganiatau yn ogystal ag argymell sefydlu Grŵp Cyswllt.

(dd) Nodwyd y pwyntiau canlynol yn erbyn yr argymhelliad:

- Y byddai'n fuddiol i gynnal ymweliad i'r safle fel bo modd i Aelodau weld drostynt eu hunain beth yw'r problemau
- Pryder y gwrthodwyd cais y llynedd oherwydd gormodedd agregu yng Ngwynedd ac nad oedd cynllun adfer yn rhan o'r cais

(e) Mewn ymateb, esboniodd Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio bod rhaid ymdrin a phob cais ar ei haeddiant ac ategwyd nad oedd gan Adran Gwarchod y Cyhoedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

(f) O safbwynt gormodedd aggregau, cadarnhawyd bod y sefyllfa yn cael ei fonitro yn gyson gyda allbwn pob safle yn cael ei gyflwyno i'r Gweithgor Agregu.

(ff) Deallwyd o sgwrs ffon gyda'r Aelod Lleol (Y Cyng. Dilwyn Lloyd) nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r cais.

(g) Cynigwyd ac eilwyd gwelliant i ymweld a'r safle.

(ng) Pleidleiswyd dros y gwelliant i ohirio ac i ymweld a'r safle ond fe syrthiodd y gwelliant.

(h) Pleidleiswyd dros y cynnig gwreiddiol i ganiatau'r cais gan ofyn i'r Adran Gynllunio wneud awgrym i'r ymgeisydd sefydlu Grwp Cyswllt i wyntyllu'r problemau amlinellwyd gan yr Aelod Lleol yn ei ddatganiad i'r Pwyllgor, ac fe gariwyd y cynnig hwn.

**PENDERFYNWYD: Cymeradwyo caniatâd cynllunio i addasu amod 6 fel a ganlyn:**

***Ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau ymlaen llaw, ni chaniateir tynnu mwy na phedwar llwyth HGV y dydd o'r chwarel. Rhaid gofalu y bydd ffigyrau allbwn o'r safle dros unrhyw gyfnod penodedig ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol, ar gais, o fewn 21 diwrnod.***

**Yn ogystal, bydd yr holl amodau ar y caniatâd presennol i reoli sŵn, llwch, dirgryniad o ffrwydron, draenio'r safle, rheoli llygredd, materion archeolegol, trefn ac adolygu gweithrediadau ac adfer yn cael eu cynnwys yn y caniatâd newydd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.45 pm.